
Cymhorthdal Incwm

**Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys
gwybodaeth ynglŷn â**

- **sut i weithio allan a allwch
chi gael Cymhorthdal Incwm**
- **sut i wneud cais am
Gymhorthdal Incwm**
- **Lwfansau a Phremiymau
Cymhorthdal Incwm**

Cynnwys

Cymhorthdal Incwm

Beth yw Cymhorthdal Incwm?	3
Allwch chi gael Cymhorthdal Incwm?	4
Mwy ynglŷn â gwneud cais	5

Ynglŷn â'ch cais

Sut i wneud cais.....	6
Os cewch anhawster gyda'r ffurflen neu'r dogfennau	6
Os bydd angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen gais	7
Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth.....	7
Ein safonau gwasanaeth.....	8

Mwy ynglŷn â Chymhorthdal Incwm

Sut y caiff Cymhorthdal Incwm ei weithio allan	8
Lwfansau a Phremiymau.....	8
Arian yn dod i mewn	9
Arian na chaiff ei gyfrif	9
Budd-dal Treth Cyngor	10
Budd-dal Tai.....	10
Credyd Treth Plant	11

Lwfansau

Ar gyfer pobl sengl	11
Ar gyfer cyplau	11

Premiymau

Os yw eich partner wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn	12
Ar gyfer pobl sydd â salwch tymor hir a phobl anabl.....	12
Ar gyfer gofalwyr pobl anabl.....	15

Mwy o wybodaeth

Help a chyngor	16
----------------------	----

Cymhorthdal Incwm

Beth yw Cymhorthdal Incwm?

Budd-dal nawdd cymdeithasol i helpu pobl nad oes ganddynt ddigon o arian i fyw arno yw Cymhorthdal Incwm.

Mae Cymhorthdal Incwm yn cynnwys

- arian ar eich cyfer chi
- arian ar gyfer eich partner, os oes gennych un
- arian ychwanegol ar gyfer pobl os yw eu treuliau yn uwch na threuliau pobl eraill, er enghraifft, pobl anabl
- arian ar gyfer rhai costau tai na chânt eu cwmpasu gan Fudd-dal Tai.

Mae *partner* yn golygu

- person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn barthneriaid sifil.

Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar

- faint mae'r gyfraith yn ei ddweud sydd ei angen arnoch i fyw, a
- faint o arian sydd gennych yn dod i mewn bob wythnos o bethau fel budd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill a gwaith rhan-amser.

Bydd cynilion dros £6,000 yn effeithio ar faint o Gymhorthdal Incwm allwch chi ei gael.

Ni fyddwch yn gallu cael Cymhorthdal Incwm os yw'ch cynilion dros £16,000.

Os ydych yn byw mewn cartref gofal

Bydd cynilion dros £10,000 yn effeithio ar faint o Gymhorthdal Incwm allwch chi ei gael os ydych yn byw yn barhaol mewn cartref preswyl. Ni allwch gael Cymhorthdal Incwm os bydd eich cynilion yn fwy na £16,000.

Cymhorthdal Incwm parhad

Allwch chi gael Cymhorthdal Incwm?

Efallai bod modd i chi gael Cymhorthdal Incwm os oes gennych chi a'ch partner, os oes gennych un, gynilion o £16,000 neu lai, a

- rydych yn gweithio am lai nag 16 awr yr wythnos, a
- mae'ch partner yn gweithio llai na 24 awr yr wythnos.

Os ydych chi neu'ch partner yn gweithio mwy o oriau na hyn

Gallech ddal i gael Cymhorthdal Incwm os, er enghraifft, bydd y person sy'n gweithio

- ddim yn gallu ennill llawer o arian oherwydd anabled
- yn gofalu am berson arall
- yn warchodwr plant gartref
- yn ymladdwr tân rhan-amser
- yn aelod o'r fyddin diriogaethol neu'r lluoedd wrth gefn.

Os ydych wedi gwahanu, dim ond eich amgylchiadau chi y byddwn yn eu hystyried a dim ond yr oriau rydych chi'n eu gweithio y byddwn yn eu cyfrif.

Os credwch na allwch gael Cymhorthdal Incwm oherwydd yr oriau rydych chi neu'ch partner yn eu gweithio, efallai y byddwch yn gallu cael Credyd Treth Gwaith.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Credyd Treth Gwaith ar **0845 300 3900**.

Os ydych chi neu'ch partner wedi cyrraedd yr oedran cymhwys, efallai eich bod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn. O 2010, bydd oedran y bobl sy'n gallu cael Credyd Pensiwn yn newid yn raddol i 65 oed yn unol â'r newid yn oedran pensiwn y wladwraeth i ferched. I gael rhagor o wybodaeth gofynnwch am daflen neu ewch i'n gwefan yn

www.dwp.gov.uk/advisers/cat1/all-products.asp

Cymhorthdal Incwm parhad

I wneud cais am Gredyd Pensiwn, ffoniwch y Gwasanaeth Pensiwn ar **0800 99 1234**.
Gallwch ond hawlio Cymhorthdal Incwm drostoch eich hun a'ch partner.

Mwy ynglŷn â gwneud cais

Pwy ddylai wneud cais – chi neu'ch partner?

Os oes gennych bartner ac y gallai'r ddau ohonoch fod â hawl i gael Cymhorthdal Incwm, gallwch benderfynu pa un ohonoch sy'n gwneud y cais.

Os ydych chi neu'ch partner o dan yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn ac wedi bod yn sâl am gyfanswm o 364 diwrnod o leiaf, neu 196 o ddiwrnodau os â salwch terfynol, y person hwnnw ddylai wneud cais.

Os ydych am gael mwy o wybodaeth i'ch helpu i benderfynu pwy ddylai wneud y cais, cysylltwch â'ch swyddfa leol.

Gofalu am berson sâl neu anabl

Efallai y byddwch yn gallu cael Cymhorthdal Incwm ychwanegol os ydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Gofalwr oherwydd eich bod yn gofalu am berson sâl neu anabl. Gelwir y swm ychwanegol hwn o Gymhorthdal Incwm yn Bremiwm Gofalwr. Lwfans Gofalwr yw'r enw newydd am Lwfans Gofal Analluedd.

I hawlio Lwfans Gofalwr, llenwch ffurflen hawlio **DS700W**. Gallwch gael y ffurflen hon o'ch swyddfa leol neu Swyddfa'r Post®.

Os oes gennych forgais neu fenthyciad cartref

Gallech gael Cymhorthdal Incwm ychwanegol ar gyfer y llog ar eich morgais neu'ch benthyciad cartref. Gallwch gael mwy o wybodaeth am hyn yn y daflen wybodaeth **IS8W Perchnogion Cartrefi – help gyda chostau cartrefu**. Gallwch gael y daflen hon o'ch swyddfa leol.

Ynglŷn â'ch cais

Sut i wneud cais

Cwblhewch ffurflen **A1W** neu **A1RW** sydd yn eich pecyn cais. Mae'n rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y ffurflen gais sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un. Mae'n bwysig eich bod yn ateb pob cwestiwn sy'n berthnosol i chi a gwneud yn siwr eich bod yn darparu'r holl ddogfennau rydym yn gofyn amdanynt.

Mae gennych un mis calendr, hyd at yr ail ddyddiad ar flaen y ffurflen, i gwblhau'r ffurflen yn gywir heb effeithio ar eich budd-dal.

Os gallwch gael budd-dal oherwydd y cais hwn gallwn ystyried ei dalu o'r dyddiad rydych wedi gofyn am y ffurflen

- os byddwch yn ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un, ac
- yn darparu'r holl ddogfennau rydym yn gofyn amdanynt o fewn mis o'r dyddiad y gofynnoch am y ffurflen.

Os na wnewch hyn, efallai mai dim ond o'r dyddiad y darparoch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom y byddwch yn cael budd-dal.

Os cewch anhawster gyda'r ffurflen neu'r dogfennau

Os cewch anhawster i gwblhau'r ffurflen neu i ddarparu unrhyw un o'r dogfennau rydym yn gofyn amdanynt, gwnewch eich gorau.

Dywedwch gymaint ag y gallwch wrthym a darparwch yr holl ddogfennau sydd gennych.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym yn **Rhan 16** o'r ffurflen **A1W** neu **Rhan 7** o'r ffurflen **A1RW** am unrhyw wybodaeth na allwch ei darparu a pham. Gallem eich helpu

- os nad yw'r wybodaeth gennych i gwblhau'r ffurflen gais am nad yw'r wybodaeth yn bodoli
- os na allwch gael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gwblhau'r ffurflen gais heb roi eich hun mewn perygl difrifol o niwed corfforol neu feddyliol ac nad oes unrhyw ffordd arall o gael y wybodaeth

Ynglŷn â'ch cais parhad

- os oes angen gwybodaeth arnoch gan rywun arall er mwyn cwblhau'r ffurflen ond na allant ddarparu'r wybodaeth o fewn amser rhesymol neu eu bod yn anfodlon gwneud hynny.

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith

- os na allwch gwblhau'r ffurflen gais oherwydd anhawster corfforol, dysgu, meddyliol neu gyfathrebu, ac
- os nad oes unrhyw un yn gallu'ch helpu i lenwi'r ffurflen gais.

Os bydd angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen gais

Os bydd angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen gais gofynnwch i gyfaill am help, gofynnwch i ganolfan gyngtori neu cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch a sut rydym yn ei defnyddio yn dibynnu'n bennaf ar y rheswm dros eich busnes gyda ni. Ond fe allwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw ddibenion yr Adran, sy'n cynnwys

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynnal plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeol.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth gan eraill er mwyn gwirio'r wybodaeth rydych yn ei roi i ni ac i wella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn diogelu yn erbyn troseddau.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymwelwch â'n gwefan www.dwp.gov.uk/welsh/privacy.asp neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

Ynglŷn â'ch cais parhad

Ein safonau gwasanaeth

Yn y Ganolfan Byd Gwaith ein nod yw darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid bob amser. Gellir dod o hyd i fanylion safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ar ein gwefan yn

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Gallwch gael mynediad i'n gwefan mewn llawer o lyfrgelloedd.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Mwy ynglŷn â Chymhorthdal Incwm

Sut y caiff Cymhorthdal Incwm ei weithio allan

Cymhorthdal Incwm yw'r gwahaniaeth rhwng

- y swm o arian y dywed y gyfraith sydd ei angen arnoch i fyw, a'r
- arian sydd eisoes gennych yn dod i mewn.

Mae'r swm y mae'r gyfraith yn ei ddweud sydd ei angen arnoch i fyw yn cynnwys

Lwfansau – ar gyfer treuliau byw o ddydd i ddydd.

Premiymau – ar gyfer treuliau sy'n debygol o fod yn uwch na'r cyffredin.

Costau tai – ond dim ond ar gyfer llog morgais a rhai costau tai eraill nad yw Budd-dal Tai yn eu cwmpasu.

Lwfansau a Phremiymau

Lwfansau

yw prif ran Cymhorthdal Incwm. Fe'u bwriedir i gwmpasu treuliau byw arferol o ddydd i ddydd.

Premiymau

yw symiau ychwanegol o Gymhorthdal Incwm ar gyfer grwpiau o bobl sydd ag anghenion arbennig. Cânt eu talu yn ogystal â'r holl Lwfansau.

Mwy ynglŷn â Chymhorthdal Incwm parhad

Os byddwch yn gymwys i gael mwy nag un Premiwm, byddwch fel arfer ond yn cael y Premiwm sy'n rhoi'r mwyaf o arian i chi.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am Lwfansau a Phremiymau ar **dudalennau 11 i 16**.

Arian yn dod i mewn

Mae arian yn dod i mewn yn golygu pethau fel

- enillion ar ôl i dreth, cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) a hanner unrhyw arian a delir i mewn i gynllun pensiwn gael eu didynnu
- Budd-dal Plant
- Budd-dal Plant – Cyfradd Rhiant Unigol
- Lwfans Gwarcheidwad
- budd-daliadau nawdd cymdeithasol
- Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant
- cynilion dros £6,000
- cynilion dros £10,000 os ydych yn byw'n barhaol mewn cartref gofal
- arian arall, er enghraifft, cynhaliaeth neu arian gan letywyr
- taliadau cynhaliaeth. Wedi'i dalu'n wirfoddol, oherwydd cytundeb ysgrifenedig, oherwydd gorchymyn llys, neu asesiad cynhaliaeth plant.

Arian na chaiff ei gyfrif

Ni chaiff yr holl arian sydd gennych yn dod i mewn ei gyfrif, er enghraifft, nid ydym yn cyfrif

- £5 cyntaf eich enillion, os nad oes gennych bartner
- £10 cyntaf unrhyw enillion neu gyd enillion, os oes gennych bartner
- £20 cyntaf eich enillion
– os ydych yn rhiant unigol.

Mwy ynglŷn â Chymhorthdal Incwm parhad

- Rydym yn defnyddio *rhiant unigol* i olygu person nad yw'n byw gyda phartner ac sydd ag o leiaf un plentyn o dan 19 oed, ar yr amod bod Budd-dal Plant yn dal i gael ei dalu ar gyfer y plentyn hwnnw, neu
- os ydych yn cael y Premiwm Anabledd
 - £20 cyntaf cynhaliaeth plant, os oes gennych gynhaliaeth cynnal plant yn cael ei gyfrifo o dan reolau newydd cynnal plant
 - cynilion o £6,000 neu lai. Ond os oes gennych gynilion rhwng £6,000.01 ac £16,000, gwneir didyniad o £1 yr wythnos o'ch budd-dal am bob £250, neu ran o £250, sy'n fwy na £6,000
 - os ydych yn byw mewn cartref gofal yn barhaol, cynilion o £10,000 neu lai. Ond os oes gennych gynilion rhwng £10,000.01 a £16,000, gwneir didyniad o £1 yr wythnos o'ch budd-dal am bob £250, neu ran o £250, sy'n fwy na £10,000
 - taliad lawndal Carcharor Rhyfel yn y Dwyrain Pell

Efallai na chaiff peth arian arall ei gyfrif. Gall eich swyddfa leol roi mwy o wybodaeth i chi am hyn.

Budd-dal Treth Cyngor

Mae'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai sy'n 18 oed neu'n hŷn yn gorfod talu treth cyngor i'w cyngor lleol. Gallech gael rhywfaint o help gyda thalu eich treth cyngor. Gallwch gael mwy o wybodaeth am hyn yn y **Nodiadau ynglŷn â Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor** sy'n dod gyda'r pecyn cais hwn.

Budd-dal Tai

Gallech gael help gyda thalu am y lle rydych yn byw. Gelwir yr help hwn yn Budd-dal Tai. Gallwch gael mwy o wybodaeth am hyn yn y **Nodiadau ynglŷn â Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor** sy'n dod gyda'r pecyn cais hwn.

Mwy ynglŷn â Chymhorthdal Incwm parhad

Credyd Treth Plant

Taliad i gefnogi teuluoedd â phlant yw Credyd Treth Plant. Gallech fod yn gymwys i'w gael os ydych yn gyfrifol am un neu fwy o blant neu berson ifanc.

Os byddwch yn gwneud cais newydd am Gymhorthdal Incwm ni fydd yn cynnwys arian dros blant. Bydd angen i chi wneud cais am Credyd Treth Plant gan Gyllid a Thollau EM. I gael mwy o wybodaeth am Credyd Treth Plant ymwelwch â www.hmrc.gov.uk neu galwch Llinell Gymorth Cyllid a Thollau EM ar **0845 300 3900**. Os ydych angen ffurflen neu gymorth yn Gymraeg ffoniwch **0845 302 1489**.

Lwfansau

Ar gyfer pobl sengl

16 neu 17 mlwydd oed	£50.95
16 neu 17 mlwydd oed, os oes rhaid i chi fyw oddi cartref mewn rhai amgylchiadau, neu os ydych yn anabl	£50.95
18 neu 24 mlwydd oed	£50.95
18 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn magu plentyn ar eich pen eich hun	£64.30
25 mlwydd oed neu'n hŷn	£64.30

Ar gyfer cyplau

Mae nifer o gyfraddau ar gyfer cyplau sy'n dibynnu ar oedran ac amgylchiadau unigol.

Er enghraifft

Y ddau o dan 18 oed	£76.90
O leiaf un o'r pâr yn 18 neu'n hŷn	£100.95

Premiymau

Os yw eich partner wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn

Premiwm Pensiynwr

Os yw eich partner wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso pan fyddant yn gallu gwneud cais am Gredyd Pensiwn i 74 oed

cyplau **£97.50**

Premiwm Mwy i Bensiynwyr

Os yw eich partner rhwng 75 a 79 mlwydd oed

cyplau **£97.50**

Premiwm Uwch i Bensiynwyr

Os yw eich partner

- yn 80 oed neu'n hŷn, neu
- Has reached the qualifying age for Pension Credit and is registered blind, or
- wedi cael cerbyd analluedd, neu
- yn cael
 - Budd-dal Analluogrwydd (cyfradd hir dymor)
 - Lwfans Gweini
 - Lwfans Symudedd
 - Lwfans Anabledd Difrifol
 - Lwfans Byw i'r Anabl

cyplau **£97.50**

Ar gyfer pobl sydd â salwch tymor hir neu bobl anabl

Premiwm Anabledd

Os na allwch weithio oherwydd salwch am gyfanswm o 364 diwrnod o leiaf, neu 196 o ddiwrnodau os oes gennych salwch terfynol, byddwch yn gymwys i gael Premiwm Anabledd. Gallech hefyd fod yn gymwys i gael y Premiwm Anabledd os ydych chi **a'ch** partner o dan yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn, ac os ydych chi **neu** eich partner

Premiymau parhad

- wedi eich cofrestru'n ddall neu gyda nam difrifol ar eich golwg, neu
- wedi eich cofrestru'n ddall tan yn ddiweddarneu gyda nam difrifol ar eich golwg, neu
- wedi cael cerbyd analluedd, neu
- yn cael rhai budd-daliadau am eich bod yn anabl ac yn methu â gweithio.

Er enghraifft

- Budd-dal Analluogrwydd (cyfradd tymor hir)
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Symudedd
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Gweithio i'r Anabl, neu

- yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith (Elfen Anabledd)

pobl sengl **£27.50**

cyplau **£39.15**

Premiwm Anabledd Difrifol – pobl sengl

Gallech gael Premiwm Anabledd Difrifol yn ogystal ag unrhyw Bremiymau eraill rydych yn gymwys i'w cael.

Gallech fod yn gymwys ar gyfer y Premiwm Anabledd Difrifol

- os ydych yn byw ar eich pen eich hun (gall rhai pobl gael eu hanwybyddu wrth benderfynu a ydych yn byw ar eich pen eich hun), ac
- os ydych yn cael elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf, ac
- os nad oes unrhyw un yn cael Lwfans Gofalwr am ofalu amdanoch

gallech gael **£52.85**

Premiwm Uwch ar gyfer Anabledd – pobl sengl

Gallech gael Premiwm Uwch ar gyfer Anabledd yn ogystal ag unrhyw Bremiymau eraill rydych yn gymwys i'w cael.

Premiymau parhad

Gallech fod yn gymwys ar gyfer y Premiwm Uwch ar gyfer Anabledd os ydych

- o dan yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn, ac
- yn cael elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd uchaf

gallech gael £13.40

Premiwm Anabledd Difrifol – cyplau

Gallech gael Premiwm Anabledd Difrifol yn ogystal ag unrhyw Bremiymau eraill rydych yn gymwys i'w cael.

Mae 3 ffordd i gyplau fod yn gymwys i gael Premiwm Anabledd Difrifol

- 1 Os yw eich partner yn cael Lwfans Gweini ac rydych chi'n cael elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf **neu** mae'r ddau ohonoch yn cael elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf, ac

- nad oes unrhyw un yn byw gyda chi, ac
- nad oes unrhyw un yn cael Lwfans Gofalwr am ofalu amdanoch chi neu'ch partner

gallech gael £105.70

- 2 Os yw eich partner yn cael Lwfans Gweini ac rydych chi'n cael elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf **neu** mae'r ddau ohonoch yn cael elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf, ac

- nad oes unrhyw un yn byw gyda chi, ac
- mae rhywun yn cael Lwfans Gofalwr am ofalu ar ôl un ohonoch

gallech gael £52.85

- 3 Os ydych chi neu'ch partner yn cael elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf, neu fod eich partner yn cael Lwfans Gweini, a

Premiymau parhad

- bod y partner arall wedi'i gofrestru'n ddall, ac
- nid oes neb yn byw gyda chi, ac
- nid oes neb yn cael Lwfans Gofalwr am ofalu am y partner gyda'r Lwfans Gweini neu'r Lwfans Byw i'r Anabl, a
- bod y person sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl yn gwneud y cais

gallech gael

£52.85

Premiwm Uwch ar gyfer Anabledd – cyplau

Gallech gael Premiwm Uwch ar gyfer Anabledd yn ogystal ag unrhyw Bremiymau eraill rydych yn gymwys i'w cael.

Gallech fod yn gymwys ar gyfer y Premiwm Uwch ar gyfer Anabledd os

- ydych chi a'ch partner o dan yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn, ac
- rydych chi neu'ch partner yn cael elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd uchaf

gallech gael

£19.30

Ar gyfer gofalwyr pobl anabl

Premiwm Gofalwr

Gallech gael Premiwm Gofalwr ar gyfer pob aelod o'ch teulu sy'n cwrdd â'r amodau cymhwyso. Gallech gael Premiwm Gofalwr yn ogystal ag unrhyw Bremiymau eraill rydych yn gymwys i'w cael.

Gallech fod yn gymwys i gael Premiwm Gofalwr os byddwch chi neu'ch partner

- yn cael Lwfans Gofalwr, neu
- wedi gwneud cais am Lwfans Gofalwr ond ddim yn ei gael am eich bod yn cael mwy o budd-dal arall

gallech gael

£29.50

Mwy o wybodaeth

Help a chyngor

Os ydych am gael mwy o wybodaeth am Gymhorthdal Incwm neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol yn gyffredinol

- cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith
- cysylltwch â chanolfan gynghori.

Gallwch ddod o hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad ar yr hysbyseb yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**.

Gwybodaeth gyffredinol yn unig sydd yn y llyfryn hwn ac nid yw'n ddatganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.

Y symiau yn y llyfryn hwn yw'r rhai a ddefnyddiwyd ers mis Ebrill 2009. Mae'r symiau fel arfer yn newid bob mis Ebrill.

Cymhorthdal Incwm

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith
a Phensiynau

Ynglŷn â'ch cais

Cysylltwch â ni i sefydlu dyddiad y cais.
Gall effeithio ar eich cais os na wnewch hynny.
Rhowch y dyddiad a roddwyd i chi yma.

Os gallwch gael budd-dal oherwydd y cais hwn
gallwn ystyried ei dalu o'r dyddiad a ddangosir uchod
os byddwch

- yn ateb pob cwestiwn ar y ffurflen sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un, ac
- anfon y ffurflen gais wedi'i chwblhau i ni a'r holl ddogfennau o fewn mis o'r dyddiad uchod.

Os na fyddwch yn gwneud hyn, dim ond o'r dyddiad
y byddwch yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen
arnom y cewch fudd-dal.

Darllenwch y nodiadau ar y dudalen nesaf cyn i chi
lenwi'r ffurflen hon.

Os na allwch

- ateb pob cwestiwn ar y ffurflen sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un, neu
- rhoi unrhyw rai o'r dogfennau rydym wedi gofyn amdanynt

dywedwch pam wrthym yn **Rhan 16** o'r ffurflen hon neu cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith ar unwaith. Weithiau gallwn ddelio â'ch cais o hyd.

At ein defnydd ni

Cod y swyddfa

Dyddiad dosbarthu

Sut i wneud cais

Cwblhewch y ffurflen gais hon. Mae'n rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y ffurflen gais sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un. Er bod y ffurflen gais hon yn eithaf hir, mae'n bwysig eich bod yn ateb y cwestiynau sy'n berthnasol i chi.

Mae'n bwysig hefyd eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n cefnogi eich cais. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a ddarparwch fod yn ddogfen wreiddiol ac nid llungopi. Mae'r ffurflen gais yn dweud wrthyhch pa ddogfennau y mae'n rhaid i chi eu darparu.

Cymerwch eich amser. Mae gennych un mis calendr, hyd at yr ail ddyddiad ar flaen y ffurflen hon, i gwblhau'r ffurflen yn gywir heb effeithio ar eich budd-dal.

Os gallwch gael budd-dal oherwydd y cais hwn gallwn ystyried ei dalu o'r dyddiad y gofynnoch am y ffurflen hon

- os byddwch yn ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un, ac
- yn darparu'r holl ddogfennau rydym yn gofyn amdanynt o fewn mis o'r dyddiad y gofynnoch am y ffurflen.

Os na wnewch hyn, efallai mai dim ond o'r dyddiad y byddwch yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom y byddwch yn cael budd-dal.

Ein safonau gwasanaeth

Yn y Ganolfan Byd Gwaith ein nod yw darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid bob amser. Gellir dod o hyd i fanylion safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ar ein gwefan yn www.canolfanbydgywaith.gov.uk

Gallwch gael mynediad i'n gwefan mewn llawer o lyfrgelloedd.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Os cewch anhawster gyda'r ffurflen neu'r dogfennau

Os cewch anhawster i gwblhau'r ffurflen neu i ddarparu unrhyw un o'r dogfennau rydym yn gofyn amdanynt, gwnewch eich gorau. Dywedwch gymaint ag y gallwch wrthym a darparwch yr holl ddogfennau sydd gennych.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym yn **Rhan 16** am unrhyw wybodaeth na allwch ei darparu a pham. Gallem eich helpu

- os nad yw'r wybodaeth gennych i gwblhau'r ffurflen gais am nad yw'r wybodaeth yn bodoli
- os na allwch gael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gwblhau'r ffurflen gais heb roi eich hun mewn perygl difrifol o niwed corfforol neu feddyliol ac nad oes unrhyw ffordd arall o gael y wybodaeth
- os oes angen gwybodaeth arnoch gan rywun arall er mwyn cwblhau'r ffurflen ond na allant ddarparu'r wybodaeth o fewn amser rhesymol neu eu bod yn anfodlon gwneud hynny.

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith

- os na allwch gwblhau'r ffurflen gais oherwydd anhawster corfforol, dysgu, meddyliol neu gyfathrebu ac
- nid oes unrhyw un a all gwblhau'r ffurflen gais ar eich rhan.

Os ydych yn rhiant unigol

Mae help ychwanegol ar gael ar gyfer rhieni unigol sy'n gwirfoddoli i ymuno â Rhaglen y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol. Os cytunwch i gymryd rhan, bydd gennych eich ymgynghorydd personol eich hun a fydd yn eich helpu a'ch cyngori ar bethau fel cymhellion, budd-daliadau a'r gofal plant sydd ar gael. Gall rhieni unigol ymuno â'r rhaglen unrhyw bryd.

Os ydych yn gwneud cais ar ran partner

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybod i chi am newid rheol o Ebrill 2004 a allai effeithio arnoch chi a'r partner rydych chi'n gwneud cais ar ei r(h)an.

Yn y dyfodol, efallai y bydd angen i'ch partner gymryd rhan mewn cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith gydag ymgynghorydd personol.

Os oes angen iddynt gymryd rhan mewn cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith, byddwn yn cysylltu â'ch partner, ar ôl i chi hawlio budd-dal am 26 wythnos neu fwy.

Y cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith gydag ymgynghorydd personol

Bydd ymgynghorydd personol yn trafod ystod o destunau gyda'ch partner, a allai gynnwys

- rhagolygon swydd cyfredol eich partner neu ragolygon swydd y dyfodol eich partner,
- hyfforddiant i ddiweddarau sgiliau gweithio eich partner,
- cymorth a chyngor os yw'ch partner yn ystyried mynd i weithio, cynyddu nifer yr oriau y maent yn eu gweithio eisoes neu newid swydd.

Mae unrhyw opsiynau y mae'ch partner yn eu trafod gyda'u hymgyngorydd personol yn y cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith, yn wirfoddol.

Efallai y bydd eich budd-dal yn gostwng os nad yw'ch partner yn cymryd rhan yn y cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith, heb reswm da.

Os bydd eich partner yn cymryd rhan yn y cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith ar ddyddiad sy'n ddiweddarach, bydd eich budd-dal yn cael ei adfer yn llawn o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Os bydd angen help arnoch

- Os bydd angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon
- gofynnwch i gyfaill neu ganolfan gynghori am help, neu
- cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Rhan 1 Amdanoch chi a'ch partner parhad

Chi

Os ydych chi neu'ch partner yn ddigartref ond bod gennych gyfeiriad dros dro, hyd yn oed os bydd hwn yn newid o ddydd i ddydd, ticiwch y blwch hwn

Dywedwch ble y gallwn gysylltu â chi yn y blwch cyfeiriad isod.

Os ydych chi neu'ch partner yn ddigartref a heb unrhyw le i fyw o gwbl, ticiwch y blwch hwn

Dywedwch ble y gallwn gysylltu â chi.

Cod post

Eich partner

Dywedwch ble y gallwn gysylltu â hwy yn y blwch cyfeiriad isod.

Dywedwch ble y gallwn gysylltu â nhw.

Cod post

Statws priodasol neu bartneriaeth sifil

Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi a'ch partner.

Priod neu bartner sifil

Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu

Sengl

Wedi gwahanu

Yn cydfyw

Gweddw neu bartner sifil wedi goroesi

Dyddiad marw eich priod neu bartner sifil wedi goroesi

	/		/	
--	---	--	---	--

Priod neu bartner sifil

Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu

Sengl

Wedi gwahanu

Yn cydfyw

Gweddw neu bartner sifil wedi goroesi

Dyddiad marw eich priod neu bartner sifil wedi goroesi

	/		/	
--	---	--	---	--

Rhan 2 Rhesymau dros eich cais

Ydych chi neu'ch partner erioed wedi hawlio Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, neu wedi gwneud cais am Gredyd Pensiwn neu Daliad Cronfa Gymdeithasol?
Os cafodd y cais ei wrthod, ticiwch Ydw/Ydy beth bynnag.

Y swyddfa a ddeliodd â'r cais

Dyddiad y taliad olaf, os o gwbl

Os oedd eich enw neu'ch cyfeiriad chi neu'ch partner yn wahanol bryd hynny, dywedwch wrthym beth oedd.

Enw llawn

Cyfeiriad

Dyddiad y symudoch i'ch cyfeiriad presennol

Chi

Na

Ydw Dywedwch wrthym am hyn isod.

Cod post

Eich partner

Na

Ydy Dywedwch wrthym am hyn isod.

Cod post

Os ydych chi neu'ch partner yn dal i wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm efallai na fyddwn yn gallu eich talu.

Ydych chi newydd ddod yn weddw neu'n bartner sifil wedi goroesi?

Na

Ydw

Ar ba ddyddiad y daethoch yn weddw neu'n bartner sifil wedi goroesi?

Ydych chi newydd wahanu oddi wrth berson a arferai fod yn bartner i chi?

Na

Ydw

Ar ba ddyddiad y gwnaethoch wahanu?

Beth yw enw'r person rydych wedi gwahanu oddi wrthynt?

Beth yw eu dyddiad geni?

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Llythrennau Rhifau Llythyren

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------

Rhan 2 Rhesymau dros eich cais parhad

Beth yw eu cyfeiriad?

Eu cyfeiriad cartref

Cod post

Eu cyfeiriad gwaith

Cod post

Ydyn nhw'n cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Pensiwn?

Na

Ydynt O ba swyddfa Canolfan Byd Gwaith y maent yn ei gael?

--

Faint o arian mae'r person rydych wedi gwahanu oddi wrthynt wedi'i adael i chi?

£

Bydd eich partner yn parhau i dalu unrhyw beth tuag at y rhent neu forgais, neu tuag at unrhyw filiau cartref?

Na

Bydd Dywedwch wrthym am hyn isod.

Taliad 1	Taliad 2	Taliad 3	Taliad 4
£	£	£	£
/ /	/ /	/ /	/ /

Ar gyfer beth yw'r taliad hwn?

Faint ydych yn disgwyl ei dderbyn?

Pryd y cewch y taliad hwn?

Pa mor aml fydd hwn yn cael ei dalu?

Os bydd angen i chi ddweud wrthym am ragor o daliadau, defnyddiwch y gofod o dan **Rhan 16 Gwybodaeth arall.**

A yw'r gwahaniad hwn dros dro?

Na

Ydy Dywedwch wrthym am hyn isod. Er enghraifft, y rheswm dros y gwahaniad ac am ba hyd rydych yn disgwyl iddo barhau.

--

Ydy'r person hyn wedi mynd dramor?

Na

Ydy A ydynt wedi mynd dramor yn barhaol? Na

Ydyn

Rhan 2 Rhesymau dros eich cais parhad

Ydych chi neu'ch partner yn sâl?

Ticiwch **Ydw/Ydy**, os ydych chi neu'ch partner wedi gwneud cais am neu'n cael Tâl Salwch Statudol (SSP).

Chi

Na

Ydw

Eich partner

Na

Ydy

Ydych chi neu'ch partner yn cael Tâl Salwch Statudol (SSP), Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol?

Na

Ydw

Na

Ydy

Os ateboch **Na**, ydych chi neu'ch partner wedi gwneud cais am Fudd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol?

Na

Ydw

Na

Ydy

Ar ba ddyddiad y dechreuodd eich cyfnod salwch diweddaraf chi neu'ch partner?

/ /

/ /

Ydych chi neu'ch partner wedi cael unrhyw gyfnod arall o salwch o fewn 52 wythnos o'r dyddiad hwnnw? Cofiwch gynnwys unrhyw gyfnod pan gawsoch chi neu'ch partner SSP.

Na

Do Dywedwch wrthym am hyn isod.

Na

Do Dywedwch wrthym am hyn isod.

Dyddiadau eraill yr oeddech chi neu'ch partner yn sâl?

o / / i / /

o / / i / /

Ydych chi neu'ch partner wedi treulio unrhyw amser yn yr ysbyty yn ystod y 52 wythnos ddiwethaf?

Na

Ydw Dywedwch wrthym am hyn isod.

Na

Ydy Dywedwch wrthym am hyn isod.

Dyddiad yr aethoch i'r ysbyty ddiwethaf

/ /

/ /

Dyddiad y daethoch allan o'r ysbyty, os yw'n briodol

/ /

/ /

Os ydych yn dal yn yr ysbyty, dywedwch wrthym enw a chyfeiriad yr ysbyty

<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
Cod post

<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
Cod post

Rhan 2 Rhesymau dros eich cais parhad

Ydych chi neu'ch partner wedi treulio unrhyw amser arall yn yr ysbyty yn ystod y 52 wythnos ddiwethaf?

Na

Ydw Dywedwch wrthym am hyn isod.

Dyddiadau eraill roeddech chi neu'ch partner yn yr ysbyty

/ / i / /

/ / i / /

Eich partner

Na

Ydy Dywedwch wrthym am hyn isod.

/ / i / /

/ / i / /

Os ydych chi neu'ch partner wedi treulio unrhyw amser arall yn yr ysbyty, dywedwch wrthym am hyn yn **Rhan 16**.

Ydych chi neu'ch partner yn dilyn cwrs hyfforddi Canolfan Byd Gwaith neu'r Fargen Newydd?

Na

Ydw

Na

Ydy

Ydych chi neu'ch partner newydd orffen cwrs hyfforddi Canolfan Byd Gwaith neu'r Fargen Newydd?

Na

Ydw

Na

Ydy

Ydych chi neu'ch partner yn gofalu am rywun sy'n sâl neu'n oedrannus?

Na

Ydw

Na

Ydy

Os ateboch **Na** i bob un o'r cwestiynau eraill yn **Rhan 2**, defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym pam eich bod yn gwneud cais am Gymhorthdal Incwm.

Rhan 3 Gwaith presennol

Mae angen i ni wybod am unrhyw waith rydych chi neu'ch partner yn ei wneud nawr.

Mae hyn yn cynnwys

- gwaith i gyflogwr neu waith hunangyflogedig
- gwaith llawn amser neu ran amser
- gwaith parhaol neu waith achlysurol
- gwaith â chyflog neu'n ddi-dâl
- seibiant rhieni neu dadol â chyflog neu'n ddi-dâl.

Ydych chi neu'ch partner wedi gwneud unrhyw waith yn ystod y 6 mis diwethaf?

Na Dywedwch wrthym, yn y blwch isod, sut y gwnaethoch chi a'ch partner gynnal eich hunain pan nad oeddech yn gweithio. Yna ewch i **Rhan 5**.

Ydym Ewch i'r cwestiwn nesaf.

Ydych chi neu'ch partner ar gyfnod o seibiant rhieni neu dadol o'ch gwaith?

Na

Ydw Pa fath o seibiant ydyw?

Seibiant rhieni

Seibiant tadol

Eich partner

Na

Ydy Pa fath o seibiant ydyw?

Seibiant rhieni

Seibiant tadol

Ydych chi neu'ch partner yn cael eich talu am y cyfnod o seibiant rhieni neu dadol?

Na

Ydw Anfonwch brawf o'r tâl atom.

Na

Ydy Anfonwch brawf o'r tâl atom.

Ydych chi neu'ch partner yn cymryd rhan mewn anghydfod masnachol? Rydym yn defnyddio *anghydfod masnachol* i olygu streic, cerdded allan, cloi allan neu anghydfod arall ynglŷn â gwaith.

Na

Ydw Byddwn yn anfon ffurflen **B71DW** atoch i'w llenwi.

Na

Ydy Byddwn yn anfon ffurflen **B71DW** atoch i'w llenwi.

Rhan 3 Gwaith presennol parhad

Ydych chi neu'ch partner yn hunangyflogedig neu'n gyfarwyddwr cwmni?

Na

Ydw Byddwn yn anfon ffurflen **B16W** atoch i'w llenwi.

Eich partner

Na

Ydy Byddwn yn anfon ffurflen **B16W** atoch i'w llenwi.

Ydych chi neu'ch partner yn is-gontractwr?

Na

Ydw

Na

Ydy

Dyddiad y daeth y gwaith is-gontractio i ben

/ /

/ /

Ydych chi neu'ch partner yn gweithio i gyflogwr ar hyn o bryd?

Os ydych chi neu'ch partner yn absennol o'r gwaith dros dro, ticiwch **Ydw/Ydy** o hyd. Gallai hyn fod oherwydd salwch neu wasanaeth rheithgor.

Nifer o oriau yr wythnos a weithiwyd fel arfer

Na

Ewch i **Rhan 4**.

Ydw

Dywedwch wrthym am hyn isod.

Na

Ewch i **Rhan 4**.

Ydy

Dywedwch wrthym am hyn isod.

awr

awr

Enw'r cyflogwr

Cyfeiriad y cyflogwr

Cod post

Cod post

Rhif ffôn y cyflogwr

Cod Rhif

Cod Rhif

Rhif cloc neu gyflogres.

Os nad ydych yn ei wybod, dywedwch wrthym beth yw'r swydd neu'r adran.

Rhan 3 **Gwaith presennol** parhad

Ydych chi neu'ch partner yn cael eich talu am y gwaith hwn?

Chi

Na

Ydw

Mae'n rhaid i chi anfon eich
2 slip cyflog diwethaf atom, os
cewch eich talu'n fisol
5 slip cyflog diwethaf atom, os
cewch eich talu'n wythnosol.

Eich partner

Na

Ydy

Mae'n rhaid i chi anfon eu
2 slip cyflog diwethaf atom, os
cânt eu talu'n fisol
5 slip cyflog diwethaf atom, os
cânt eu talu'n wythnosol.

Gallech golli budd-dal os na fyddwch yn darparu dogfennau gwreiddiol erbyn y dyddiad ar flaen y ffurflen hon. Os na allwch ddarparu'r dogfennau hyn, dywedwch wrthym pam yn *Rhan 16*.

Os Na, dywedwch wrthym pa fath o waith ydyw a pham ei fod yn ddi-dâl.

A allwn ni gysylltu â'ch cyflogwr chi neu gyflogwr eich partner?

Ni fydd angen i ni wneud hyn fel arfer os byddwch yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom ac yn anfon slipiau cyflog.

Na

Gallwch

Na

Gallwch

Rhan 4 Gwaith blaenorol

Mae angen i ni wybod am unrhyw waith rydych chi neu'ch partner wedi ei wneud yn yr ychydig fisoedd diwethaf.

Mae hyn yn cynnwys

- gwaith i gyflogwr neu waith hunangyflogedig
- gwaith llawn amser neu ran amser
- gwaith parhaol neu waith achlysurol
- gwaith â chyflog neu'n ddi-dâl.

	Chi	Eich partner
Ydych chi neu'ch partner wedi rhoi'r gorau i fod yn hunangyflogedig yn ystod y 6 mis diwethaf?	Na <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Byddwn yn anfon ffurflen B16W atoch i'w llenwi.	Na <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Byddwn yn anfon ffurflen B16W atoch i'w llenwi.
Dyddiad y daeth yr hunangyflogaeth i ben	<input type="text" value="/ /"/>	<input type="text" value="/ /"/>
Ydych chi neu'ch partner wedi rhoi'r gorau i weithio i gyflogwr yn ystod y 9 mis diwethaf?	Na <input type="checkbox"/> Ewch i Rhan 5 . Do <input type="checkbox"/> Dywedwch wrthym am hyn isod.	Na <input type="checkbox"/> Ewch i Rhan 5 . Do <input type="checkbox"/> Dywedwch wrthym am hyn isod.
Y dyddiad y dechreuoch chi neu'ch partner weithio	<input type="text" value="/ /"/>	<input type="text" value="/ /"/>
Y dyddiad y gwnaethoch chi neu'ch partner weithio ddiwethaf	<input type="text" value="/ /"/>	<input type="text" value="/ /"/>
Enw'r cyflogwr	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Cyfeiriad y cyflogwr	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>
	Cod post	Cod post
Rhif ffôn y cyflogwr	Cod <input type="text"/> Rhif <input type="text"/>	Cod <input type="text"/> Rhif <input type="text"/>
Rhif cloc neu gyflogres. Os nad ydych yn ei wybod, dywedwch wrthym beth oedd y swydd neu'r adran.	<input type="text"/>	<input type="text"/>

A allwn ni gysylltu â'ch cyflogwr chi neu gyflogwr eich partner? Ni fydd angen i ni wneud hyn fel arfer os byddwch yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom.

Na
Gallwch

Na
Gallwch

Ydych chi'n disgwyl cael unrhyw daliadau gan gyflogwr oherwydd bod swydd wedi dod i ben?

Rydym yn golygu taliadau sy'n ymwneud â gwaith ond nid am waith a wnaed. Gall hyn fod yn

- unrhyw daliadau cadw
- ad-daliad pensiwn.

Chi

Na

Oes Dywedwch wrthym am hyn isod.

Eich partner

Na

Oes Dywedwch wrthym am hyn isod.

Rhan 5 Plant neu bobl ifanc sy'n gymwys sy'n byw yn eich cartref yn barhaol

Oes gennych unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gymwys sy'n byw yn eich cartref yn barhaol sy'n dibynnol arnoch chi?

Peidiwch â chynnwys manylion am

- blant maeth
- plant neu bobl ifanc sy'n gymwys sy'n lletya gyda chi tra byddant yn aros i gael eu mabwysiadu.

Byddwn yn dweud wrthyfych am hyn yn **Rhan 14**.

Na Ewch i **Rhan 6**.

Oes Dywedwch wrthym am y plant neu bobl ifanc sy'n gymwys hyn isod.

Mae *plentyn* yn golygu person o dan 16 oed rydych yn cael budd-dal plant ar ei gyfer. Mae *person ifanc sy'n gymwys* yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

Plant neu bobl ifanc sy'n gymwys sy'n byw yn eich cartref yn barhaol sy'n dibynnol arnoch chi

Gwryw neu Benyw

Perthynas â chi

Perthynas â'ch partner

Ydych chi neu'ch partner yn cael neu'n gwneud cais am Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn neu berson ifanc sy'n gymwys hwn?

Oes gan y plentyn neu berson ifanc sy'n gymwys riant neu rieni sy'n byw yn rhywle arall?

Cyfenw	Enwau eraill	Dyddiad geni	G	B	Er enghraifft, mab, merch, nith, wŷr, llys-ferch neu ddim.	Na <input type="checkbox"/> Ydym <input type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Dywedwch wrthym yn **Rhan 16**

- os oes gennych fwy nag 8 o blant neu bobl ifanc sy'n gymwys
- os oes gennych unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gymwys sydd fel arfer yn byw gyda chi ond sydd mewn ysgol breswyl neu yng ngofal yr awdurdod lleol.

Os ydych wedi dweud wrthym am blentyn neu berson ifanc sy'n gymwys sydd â riant sy'n byw yn rhywle arall, gofynnwch am daflen ynglŷn â chynhaliadau plant os ydych yn gwneud cais am fudd-daliadau. Gallwch ei gael o'r Ganolfan Byd Gwaith.

Rhan 6 Pobl eraill sy'n byw gyda chi

Mae angen i ni wybod am unrhyw bobl eraill sy'n byw yn yr un cartref â chi.

Mae angen y wybodaeth hon arnom i sicrhau ein bod yn gweithio allan eich costau tai yn gywir.

Dywedwch wrthym am

- blant neu bobl ifanc sy'n gymwys nad ydych eisoes wedi'u cynnwys yn **Rhan 5**
- perthnasau, os ydynt yn byw yn eich cartref **chi**
- preswylwr a lletywr
- ffrindiau
- unrhyw un arall sy'n byw yn yr un cartref.

Peidiwch â dweud wrthym am

- aelodau o'ch teulu agos, os ydych yn byw gyda hwy yn **eu** cartref
- pobl sydd ond yn rhannu cyntedd neu ystafell ymolchi neu doiled gyda chi, neu sy'n byw mewn fflat ar wahân yn yr un tŷ
- preswylwyr eraill, os ydych yn byw mewn cartref gofal
- plant maeth neu blant neu bobl ifanc sy'n gymwys sy'n lletya gyda chi tra'u bod yn aros i gael eu mabwysiadu.

Oes unrhyw un arall yn byw yn yr un cartref â chi, nad ydych eisoes wedi dweud wrthym amdanynt ar y ffurflen hon?

Enw llawn

Rhyw

Dyddiad geni

Eu perthynas â chi

A ydynt yn gweithio am 16 awr neu fwy yr wythnos?

Enw llawn

Rhyw

Dyddiad geni

Eu perthynas â chi

A ydynt yn gweithio am 16 awr neu fwy yr wythnos?

Na Ewch i **Rhan 8**.

Oes Dywedwch wrthym am y bobl hyn.

Person 1

Gwryw Benyw

/ /

Na

Ydynt

Person 3

Gwryw Benyw

/ /

Na

Ydynt

Person 2

Gwryw Benyw

/ /

Na

Ydynt

Person 4

Gwryw Benyw

/ /

Na

Ydynt

Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy na 4 person, dywedwch wrthym amdanynt yn **Rhan 16** o'r ffurflen hon.

Rhan 6 Pobl eraill sy'n byw gyda chi parhad

Mae angen i ni wybod a oes gan unrhyw rai o'r bobl sy'n byw gyda chi unrhyw arian yn dod i mewn. Nid oes rhaid i chi ateb y cwestiynau hyn ond os nad oes ganddynt lawer o arian yn dod i mewn, gallech gael mwy o Gymhorthdal Incwm.

Dywedwch wrthym am

- enillion
 - budd-daliadau nawdd cymdeithasol
 - unrhyw arian arall sydd ganddynt yn dod i mewn.
- Os oes ganddynt enillion, dywedwch wrthym am y swm cyn didynnu treth, Yswiriant Gwladol ac unrhyw arian arall a gymerwyd i ffwrdd.

Peidiwch â dweud wrthym am unrhyw arian o

- Ymddiriedolaeth Macfarlane,
- y Gronfa,
- Ymddiriedolaeth Eileen,
- y Gronfa Byw yn Annibynnol, neu
- y Gronfa Skipton.

	Person 1	Person 2
Oes ganddynt unrhyw arian yn dod i mewn?	Na <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/>
Beth ydyw?	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Faint ydyw bob wythnos?	£ <input type="text"/>	£ <input type="text"/>
	Person 3	Person 4
Oes ganddynt unrhyw arian yn dod i mewn?	Na <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/>
Beth ydyw?	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Faint ydyw bob wythnos?	£ <input type="text"/>	£ <input type="text"/>

Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy na 4 o bobl, dywedwch wrthym amdanynt yn **Rhan 16** o'r ffurflen hon.

A yw unrhyw un o'r bobl rydych wedi dweud wrthym amdanynt yn briod â'i gilydd, mewn partneriaeth sifil â'i gilydd neu'n byw gyda'i gilydd fel pe baent yn briod neu'n bartneriaid sifil?

Rydym yn galw'r bobl hyn yn bartneriaid.

Na

Ydynt Dywedwch wrthym amdanynt.

yw partner

yw partner

Rhan 7 Ynglŷn â chyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu, cynilion ac eiddo

Mae angen i ni wybod am unrhyw arian, cynilion ac eiddo yn y wlad hon neu dramor sydd gennych chi neu eich partner.

Oes gennych chi neu'ch partner unrhyw un o'r canlynol?

Mae'n rhaid i chi roi ateb ar gyfer pob eitem yn y rhestr. Dywedwch wrthym am gyfrifon hyd yn oed os nad ydynt mewn credyd.

	Na	Oes	Swm		
Cyfrifon banc – yn cynnwys cyfrifon cyfredol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Cyfrifon cymdeithas adeiladu – yn cynnwys cyfrifon cyfredol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Cyfrifon Swyddfa'r Post®	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Cyfrif Banc Cynilion Cenedlaethol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Bondiau premiwm	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Ymddiriedolaethau uned, ISAs, PEPS neu fuddsoddiadau eraill	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Arian o daliad diswyddo	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Arian o werthu eich tŷ	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Arian rydych wedi ei gynilo ar gyfer rhywbeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Arian neu eiddo a gedwir mewn ymddiriedolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Bondiau Incwm neu Fondiau Cyfalaf	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>		
Unrhyw arian arall sydd gennych	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>	Enw'r cwmni lle y mae gennych gyfranddaliadau ynddo	Nifer y cyfranddaliadau
Cyfranddaliadau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text" value="£"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
			<input type="text" value="£"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
			<input type="text" value="£"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Os oes gennych chi neu'ch partner fwy na 3 math o gyfranddaliadau, dywedwch wrthym amdanynt yn **Rhan 16**.

Faint yw cyfanswm gwerth eich cynilion?

Os nad oes gennych unrhyw cynilion, ysgrifennwch **Dim**.

